



BUCHEDD BANGOR

CYLCHGRAWN  
CADEIRLAN  
DEINIOL SANT  
YM MANGOR

THE MAGAZINE  
OF SAINT  
DEINIOL'S  
CATHEDRAL  
IN BANGOR



Cadeirlan  
Deiniol Sant  
*ym Mangor*

Saint Deiniol's  
Cathedral  
*in Bangor*



FEL COEDEN A  
BLANNWYD AR  
LAN DYFROEDD  
O ORFFENNNAF TAN  
DDYDD GŴYL  
DEINIOL SANT  
LIKE A TREE  
PLANTED BY  
WATER FROM JULY  
UNTIL SAINT  
DEINIOL'S DAY

27.6.2022-11.9.2022

RHAD AC AM DDIM  
EWCH Â CHOPÍAU I'W RHANNU  
FREE  
PLEASE TAKE COPIES TO SHARE

# CROESO WELCOME

Gwylion

**Croeso i'r pedwerydd rhifyn hwn  
o Buchedd Bangor, cylchgrawn  
newydd Cadeirlan Deiniol Sant ym  
Mangor.**

"Buchedd" yw'r enw a roddir ar gofnod o fywyd rhywun, a cheir bucheddau'r saint o'r Canol Oesoedd sy'n adrodd hanes rhai o brif seintiau Celtaidd Cymru. Mae **Buchedd Bangor**, felly, yn rhyw fath o gofnod o fywyd ein cymuned ni o gyfeillion Crist ym Mangor yr awr hon. Fe geir yma gymysgedd o ddefnydd ysbyryol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

Bu Mehefin, gyda'i ddyddiau hir, golau, mwyn, yn fis y cyflawnwyd llawer yma ym Mangor. I'r Gadeirlan tua dechrau'r mis croesawyd yr Arglwydd Raglaw, yr Uchel Siryf a gwesterion eraill i weddö dros Ei Mawrhydi Y Frenhines ar achlysur ei Jiwbilï Platinwm. Yn ystod ein dathliadau Jiwbilï hefyd, bu'r Gadeirlan yn llawn un wythnos â llonder te parti a'r nesaf â cherddoriaeth gorawl a cherddorfaol ogoneddus. Tua diwedd y mis, croesawyd hen gyfeillion o bob cwr o'r esgobaeth i'r Ordeinio Diaconiaid, a chyfeillion newyddi dathlu Pride Gogledd Cymru gyda ni yng Nghlos y Gadeirlan. Ac wrth i ni baratoi i ailddechrau addoli ar ddyddiau'r wythnos yn Eglwys y Groes, adroddodd cymuned yr eglwys ym Maesgeirchen ei hanes unigryw a grymus i ymwelwyr o bell ac agos yn ystod dathliadau Maes G-Connect.

Ynghanol y prysurdeb hwn, yr ydym hefyd wedi gweddö, galaru, gofalu a chymeradwyo fel pobl Dduw yn y lle hwn, gan ddilyn Crist gyda'n gilydd trwy holl dreialon bywyd. Diolch i chi am fod yn gyd-bererinion ar y daith. Fel arfer, dyma eich gwahoddiad i fod yn rhan lawn o ddefodau a dathliadau'r Gadeirlan, ac i wahodd eraill i ymuno â ni wrth i ni, wedi ein maethu gan Grist, roi gogoniant i Dduw.



Lluniau clawr | Cover images  
y Parchg | the Revd Hana Amner

## Welcome to this fourth issue of **Buchedd Bangor**, the new magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.


"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, and "bucheddau'r saint" (the "lives of the saints") told the stories of the Celtic saints.

**Buchedd Bangor** is, therefore, a sort of record of the life of our community of Christ's companions here in Bangor at this time. It offers a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together.

June, with its long, light days, was a month during which much was achieved here in Bangor. To the Cathedral near the beginning of the month we welcomed the Lord-Lieutenant, the High Sheriff and other guests to pray for Her Majesty The Queen on her Platinum Jubilee. Our Jubilee celebrations also saw the Nave filled one week with tea party revellers and the next with glorious choral and orchestral music. Near the month's end, we welcomed old friends from across the diocese to the Ordination of Deacons, and new friends who celebrated North Wales Pride with us in the Cathedral Close. And as we prepare to recommence weekday worship at Eglwys y Groes, the church community in Maesgeirchen told its unique and powerful story to visitors from near and far during Maes G-Connect's celebrations.

Amid this busy-ness, we have also prayed, mourned, cared and commended as the people of God in this place, following Christ together through all of life's endeavours. Thank you for being fellow-pilgrims on this journey. As ever, this is your invitation to be fully involved in the rites and celebrations of the Cathedral, and to invite others to join us as we, nourished by Christ, give glory to God.

Oddi wrth yr  
**Is-Ddeon**  
**From the**  
**Sub-Dean**  
**Canon Siôn**  
**Rhys Evans**



# PANED HEFO DAVID MORRIS

**Ymhob rhifyn o Buchedd  
Bangor, rydym yn cwrdd  
ag aelod o gymuned y  
Gadeirlan. Y tro hwn,  
cawn baned â Chanon  
David Morris, ein Canop  
Secundus a Chyfarwyddwr  
Gweinidogaeth yr  
esgobaeth.**

Yn holi mae Naomi  
Wood, ein Cyfarwyddwr  
Cyfathrebu esgobaethol  
a'n Gweinidog Teulu yn  
y Gadeirlan ac ym Mro  
Deiniol.



Naomi Wood

**Dweud ychydig am dy hun wrtha i.**

Boi o'r Rhondda ydw i. Roeddwn i'n byw yng Nghwm Rhondda tan yn ddeunaw oed. Cefais fagwraeth hapus gydag un neu ddwy o heriau a brofais yn ystod fy ieuencnid. Gadewais Gwm Rhondda wedyn a dod i astudio diwinyddiaeth ym Mangor a chael tair o'r flynyddoedd hapusaf fy mywyd yma. Roedd yn gyfnod ffurfiannol iawn. Roedd yn amser pwysig yn fy hunan-ddatblygiad a fy hunan ymwybyddiaeth, ond roedd hefyd yn amser pwysig yn fy nealltwriaeth o ddiwinyddiaeth a sut yr ydym yn siarad am Dduw. Mynychais y Gadeirlan hefyd ac roedd yn lle meithringar. Fe helpodd yn fawr yn natblygiad fy ngalwedigaeth.

**Sut dechreuodd dy stori ffydd a pryd  
gwnes ti teimlo galwad Duw i gael dy  
ordeinio?**

Dechreuodd fy stori ffydd gyda fy nain a fyddai'n mynd â mi i'r eglwys ar adegau rhyfedd pan oeddwn yn iau. Yn ddeg oed un bore Sul roeddwn yn y gegin gartref a mam yn smwddio. Clywais glychau'r eglwys yn canu a dywedais wrth fy mam yr hoffwn fynd i'r eglwys ddydd Sul nesaf. Meddai, "O ie, iawn. Dwi wir wedi bod yn meddwl mynd yn ôl fy hun." Felly aethon ni'r Sul canlynol ac es i i'r Ysgol Sul. Mwynhaodd y ddau ohonom ac aethom yn ôl yr wythnos ganlynol a daeth yn arferol. Ymhen blwyddyn cefais fy medyddio a'm confyrmio. Fe wnaeth fy offeiriad plwyf fy meithrin yn dda. Cefais gyfrifoldebau trwy

# GETTING TO KNOW DAVID MORRIS

**In each edition of  
Buchedd Bangor, we meet  
another member of the  
Cathedral community.  
This time, we spend time  
with Canon David Morris,  
our Canon Secundus and  
the diocese's Director of  
Ministry.**

Asking the questions  
is Naomi Wood, our  
diocesan Director of  
Communications and  
our Family Minister at  
the Cathedral and in Bro  
Deiniol.

## Tell me a little about yourself.

I am a Rhondda boy. I lived in the Rhondda Valley until I was eighteen. I had a happy upbringing with one or two challenges that I experienced during my youth. I then left the Rhondda Valley and came to study theology in Bangor and had three of the happiest years of my life here. It was a very formative time. It was an important time in my own self development and my self awareness, but it was also an important time in my understanding of theology and how we talk about God. I also attended the Cathedral and I found it a nurturing place. It really helped in the development of my vocation.

## How did your faith story begin and when did you first feel God's call to be ordained?

My faith story began with my grandmother who would take me to church on odd occasions when I was younger. At the age of ten one Sunday morning I was in the kitchen at home and my mother was ironing. I heard the church bells ring and I said to my mother that I'd like to go to church next Sunday. She said, "Oh right, okay. I've actually been thinking of going back myself." So we went the following Sunday and I went to Sunday School. We both enjoyed it and we went back the following week and it became habitual. Within the space of a year I was baptised and confirmed. My parish

wasanaethu a chynorthwyo mewn priodasau yn ogystal â chymaint o gyfleoedd eraill.

Dechreuais adnabod fy ngalwedigaeth pan oeddwn yn 14 ar ôl i'm hoffeiriad plwyf ddweud, "Wyt ti'n meddwl bod Duw yn dy alw i fod yn offeiriad?" Yn fy arddegau roeddwn i'n treulio llawer mwy o amser yn yr eglwys na'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn eu harddegau! Roedd y cwestiwn hwnnw'n eistedd gyda mi ac yn atseini gyda mi ac ni fyddai'n diflannu. Roeddwn wedi bod eisiau bod yn filfeddyg hyd at y pwynt hwnnw ond ar ôl i'r cwestiwn hwnnw gael ei ofyn, daeth bod eisiau bod yn filfeddyg yn wirioneddol ddi-nod. Dyna sut roeddwn i'n gwybod bod fy ngalwedigaeth i weinidogaeth ordeiniedig yn rhywbeth yr oedd angen i mi ei ddilyn, oherwydd doedd dim byd arall yn gwneud synnwyr.

**Disgrifia ychydig o dy daith drwy'r broses ddethol a sut y daethost i fod yma ym Mangor fel Cyfarwyddwr Gweinidogaeth.**

Tua diwedd fy ngradd yma ym Mangor es i drwy broses ddethol yr Eglwys yng Nghymru a chael fy nerbyn ar gyfer hyfforddiant ac es i ffwrdd i Goleg Mihangel Sant fel yr oedd bryd hynny. Ar ôl gwneud



Wedi gwasanaeth Gosod y Canon Secundus  
After the Canon Secundus's Installation service

---

# FROM THE RHONDDA, I CAME TO STUDY THEOLOGY IN BANGOR AND HAD THREE OF THE Happiest YEARS OF MY LIFE HERE

---

priest nurtured me well. I was given responsibilities by serving and assisting at weddings in addition to so many other opportunities.

I started to recognise my vocation when I was 14 after my parish priest said, "Do you think God is calling you to be a priest?" As a teenager I was spending far more time in church than most teenagers! That question sat with me and resonated with me and it wouldn't go away. I had wanted to be a vet up until that point but after that question was asked, wanting to be a vet became really insignificant. That's how I knew that my vocation to ordained ministry was something I needed to pursue, because nothing else made sense.

**Describe a little of your journey through the selection process and how you came to be here in Bangor as Director of Ministry.**

Towards the end of my degree here in Bangor I went through the Church in Wales selection process and got accepted for training and went off to St Michael's College as it was then. Having already done a theology degree as an undergraduate I did a Masters in Theology which was essentially a study of Roman Catholic teaching on love, sex and marriage. I was particularly interested in the teaching of Joseph Ratzinger who then became Pope Benedict XVI. One of the things he said in his first letter was that sex is an expression of love, which was quite revolutionary. I wanted to look at that from an Anglican perspective.

Then I was ordained! I served my curacy in Merthyr Tydfil where I felt very much at home as it was a valleys community. I was then appointed Associate Priest and then Incumbent of Grangetown which is a multicultural, vibrant, bustling inner city parish in Cardiff. While I was there one of the things I learnt which was most valuable was how important collaboration is with community groups and organisations.

I was then appointed Diocesan Director of Ordinands (DDO).

gradd diwinyddiaeth yn barod fel myfyriwr israddedig fe wnes i Radd Meistr mewn Diwinyddiaeth a oedd yn ei hanfod yn astudiaeth o ddysgeidiaeth Gatholig Rufeinig ar gariad, rhyw a phriodas. Roedd gennyl ddiddordeb arbennig yn nysgeidiaeth Joseph Ratzinger a ddaeth wedyn yn Bab Bened XVI. Un o'r pethau a ddywedodd yn ei lythyr cyntaf oedd bod rhyw yn fynegiant o gariad, a oedd yn eithaf chwyldroadol. Roeddwn i eisiau edrych ar hynny o safbwyt Anglicanaidd.

---

MAE DUW BOB AMSER YN GALW.  
MAE DUW BOB AMSER YN ANFON.  
MAE GEN I BOB FFYDD FOD  
GENNYM NI BOBL FYDD YN SEFYLL  
YN Y BWLCH

---

Yna cefais fy ordeinio! Gwasanaethais fy nghwradiaeth ym Merthyr Tudful lle teimlais yn gartrefol iawn gan ei bod yn gymuned yn y cymoedd. Yna cefais fy mhenodi'n Offeiriad Cyswllt ac yna'n Beriglor Grangetown sy'n blwyf canol dinas amlddiwylliannol, bywiog a phrysur yng Nghaerdydd. Tra roeddwn i yno, un o'r pethau a ddysgais oedd fwyaf gwerthfawr oedd pa mor bwysig yw cydweithio gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol. Yna cefais fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Ordinandiad yr Esgobaeth (COE).

**Ydy hynny'n rhywbeth rwyt ti wedi bod eisiau ei wneud erioed?  
Mae'n dra gwahanol i fod yn offeiriad plwyf.**

Ie, i raddau, y cefais fy ngwneud yn Gynghorydd Galwedigaethau i Archddiaconiaeth Llandaf yn fuan ar ôl cael fy mhenodi i Grangetown. Byddwn yn teithio gydag ymgeiswyr am gyfnod penodol o amser ac yna'n eu trosglwyddo i'r COE. Roeddwn i wrth fy modd yn bod yn rhan o deithiau pobl. Wnes i ddim dychmygu y byddwn yn dod yn COE am beth amser ond cymerodd y COE yn Esgobaeth Llandaf gyfnod sabothol ac yna aeth yn sâl. Yn y diwedd fe wnes i gamu i fyny fel COE am rai misoedd ac yna cymerodd y COE rôl arall a chefais fy annog i wneud cais am y swydd. Bûm yn gwasanaethu fel COE am bron i dair blynedd cyn i Esgobaeth Bangor gysylltu â mi i ofyn imi ystyried dod yn Gyfarwyddwr Gweinidogaeth yma. Roedd yn benderfyniad enfawr i'w wneud oherwydd mae fy nheulu i gyd a fy mhartner bellach bedair awr i'r de.

---

**Is that something you've always wanted to do? It's quite different from being a parish priest.**

It is yeah to some extent in that, soon after being appointed to Grangetown, I was made a Vocations Advisor for the Archdeaconry of Llandaff. I would journey with candidates for a certain period of time and then hand them on to the DDO. I loved being a part of people's journeys. I didn't imagine I would become a DDO for some time but the DDO in the Diocese of Llandaff took a sabbatical and then became unwell. I ended up stepping up as DDO for a couple of months and then the DDO took on another role and I was encouraged to apply for the position. I served as DDO for nearly three years before I was approached by the Diocese of Bangor to ask me to consider becoming Director of Ministry here. It was a huge decision to make because all of my family and my partner are now four hours south.

**So is the future of the Church in Wales in your hands then? That's a huge responsibility – no pressure.**

You're absolutely right. It is a huge responsibility that Directors of Ministry have across the Province. My role here is to develop ministry



Yn ystod Ordeinio'r Diaconiaid yn y Gadeirlan eleni  
At the Ordination of Deacons in the Cathedral this year

**Felly ydy dyfodol yr Eglwys yng Nghymru yn dy ddwylo di felly?  
Mae hynny'n gyfrifoldeb enfawr – dim pwysau.**

Rwyt ti'n holol iawn. Mae'n gyfrifoldeb enfawr sydd gan Gyfarwyddwyr Gweinidogaeth ar draws y Dalaith. Fy'r ôl i yma yw datblygu gweinidogaeth sy'n cynnwys galwedigaethau, curadiad, datblygiad proffesiynol clerigion a gweinidogion lleyg a hefyd y broses Adolygu Datblygiad y Weinidogaeth. Mae Duw bob amser yn galw. Mae Duw bob amser yn anfon. Mae gen i bob ffydd fod gennym ni bobl fydd yn sefyll yn y bwlch ac eisiau gwasanaethu yn y weinidogaeth – beth bynnag fydd hynny. Rwy'n meddwl mai fy'r ôl yw hwyluso a galluogi a cheisio meithrin diwylliant sy'n ganiataol ac sy'n rhoi cyfle i bobl archwilio eu galwad. Ond mae'n rhaid i bawb chwarae eu rhan yn hynny hefyd. Mae Ardaloedd Gweinidogaeth yn

---

**MAE GWELD POBL YN  
DOD YN BOBL Y CREOIDD  
DUW NHW I FOD YN  
RHYWBETH SYDD WIR YN  
FY NGHYFFROI**

---

chwarae rhan allweddol wrth gydnabod rhoddion a bod yn rhoddwyr caniatâd. Yr hyn sydd ei angen arnom yw offeiriad nad ydynt yn teimlo, wrth alluogi eraill, eu bod yn lleihau eu gweinidogaeth eu hunain. Mae cymaint y gallwn ei rannu, ac os gwnawn hynny'n dda yna mae gan Ardaloedd Gweinidogaeth well siawns o weithredu'n dda. Mae gweld pobl yn dod yn bobl y creodd Duw nhw i fod yn rhywbeth sydd wir yn fy nghyffroi.

**Beth fyddet ti'n ei ddweud wrth unrhyw un sy'n archwilio galwad  
Duw ar eu bywyd?**

Byddwn i'n dweud, "Ffantastig, mae angen i chi ganfod eich galwad. Peidiwch â gadael iddo fynd heb ei ateb." Byddwn yn eu hannog i siarad â'u Harweinydd Ardal Gweinidogaeth leol ac eraill sy'n lleol iddynt yn gyntaf. Mae gan bawb alwad o ryw fath oherwydd mae gan Dduw gynllun ar gyfer bywyd pawb. Byddwn hefyd yn annog pawb i ystyried yr hyn y gallai fod ganddynt i'w gynnig nad ydynt yn ei gynnig eto. [B]

which includes vocations, curacies, the professional development of clergy and lay ministers and also the Ministry Development Review process. God always calls. God always sends. I have every confidence that we have people who will rise up and will want to serve in ministry – whatever that looks like. I think my role is to facilitate and to enable and to try and foster a culture that is permissive and gives people the opportunity to explore their call. But everyone has to play their part in that too. Ministry Areas play a key role in recognising gifts and in being permission givers. What we need is priests who don't feel that, in enabling others, they are diminishing their own ministry. There's so much we can share, and if we do that well then Ministry Areas have a better chance of functioning well. Seeing people become the people that God created them to be is something that really excites me.

---

SEEING PEOPLE BECOME  
THE PEOPLE THAT GOD  
CREATED THEM TO BE IS  
SOMETHING THAT REALLY  
EXCITES ME

---

**What would you say to anyone who is exploring God's call on their life?**

I'd say, "Fantastic, you need to discern your call. Don't let it go unanswered." I'd encourage them to talk to their local Ministry Area Leader and others local to them first. Everyone has a calling of some kind because God has a plan for everyone's life. I'd also encourage everyone to consider what it is that they might have to offer that they're not offering yet. [B]

# Y GORLAN HON



“Moel Hebog”  
Kyffin Williams (1918-2006)

DYWEDODD IESU:  
“Y MAE GENNYF  
DDEFAID ERAILL  
HEFYD, NAD YDYNT  
YN PERTHYN ÍR  
GORLAN HON. RHAID  
IMI DDOD Â'R  
RHEINI I Mewn, AC  
FE WRANDAWANT AR  
FY LLAIS...”

Yn uchel ar lethrau Moel Hebog, uwchben Beddgelert, yn Eryri, lle buon ni'n cerdded yn y dyddiau'n dilyn y Pasg, mae yna gylch mawr o gerrig: nid, fel ag y tybiech ar yr olwg gyntaf, yn fan addoli derwyddol hynafol ond, yn hytrach, lloc neu gorlan defaid ac, wrth ei ochr, olion hen gwt bugail o'r Oes Haearn. Mae dystiolaeth bugeilio wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn nhirwedd Cymru. Ac os ydy olion gweladwy bugeilio wedi'u naddu ar y llethrâu, felly hefyd mae syniad – cysyniad – y berthynas ddelfrydol rhwng bugail a'i ddefaid, yn un mor ddwfn ei wreiddiau yn ein hiaith a'n cynhysgaeth. Ac nid yn unig ymmsg gwerin cefn gwlad, nac yng Nghymru yn unig – mae iaith bugeilio yn un gyffredinol yn fydd-eang.

Yr iaith, a'r defnydd trosiadol o'r iaith. Ddylai hynny ddim bod yn syndod inni, yn iaith mor hynafol, mor ddwfn ei gwreiddiau, fel bod yr hil ddynol, ers

# THIS FOLD

**Pregethwyd y bregeth  
hon gan Canon Alan Gyle,  
ein Canon Quintus a  
Ficer Eglwys Sant Paul yn  
Knightsbridge, ar Drydydd  
Sul y Pasg, 1 Mai 2022.**

Y llithoedd oedd Ezekiel 34:11-16 ac Ioan 10:11-18, a'r thema yn ei cyfres bregethu oedd "Iachawdwriaeth".

**Canon Alan Gyle, our  
Canon Quintus and the  
Vicar of Saint Paul's  
Church in Knightsbridge,  
preached this sermon  
on the Third Sunday of  
Easter, 1 May 2022.**

The lessons were Ezekiel 34:11-16 & John 10:11-18, and the theme in our sermon series was "Salvation".

**JESUS SAID: "AND I HAVE OTHER SHEEP THAT ARE NOT OF THIS FOLD; I MUST BRING THEM ALSO, AND THEY WILL HEED MY VOICE..."**

High on the slopes of Moel Hebog above Beddgelert, in Snowdonia where we were walking in the days after Easter, there is a large circle of stones: not as you might think at first glance a prehistoric place of druidic worship, but a sheepfold, and beside it the remains of an iron age shepherd's hut. The evidence of shepherding is embedded deeply in the landscape of Wales. And if the physical traces of shepherding are graven on the hillsides, so too the idea – the concept – and the ideal of the relationship between shepherd and sheep, is just as deeply and anciently embedded in our language and our consciousness. And not just among rural folk, and not just in Wales – the language of shepherding is universal.

The language, and the figurative use of the language. It shouldn't surprise us, so ancient and so embedded is this language, that since the dawn of time, human beings seeking to say something about their sense of who this mysterious God is whom we recognise in creation and in our lives

bore oes, wrth geisio mynegi eu hymdeimlad ynglŷn â phwy ydy'r Duw dirgel hwn a adnabyddwn trwy'r greadigaeth ac yn ein bywydau (er mor ysbeidiol a phob amser yn ddirgelwch), fod yr ymdrechion i siarad am Dduw, ac hyd yn oed ynglŷn ag ewyllys Duw... mor aml wedi'u mynegi yn nhermau'r bugail, y defaid, a'r berthynas ddibynnol sydd rhngddyn nhw. "Yr Arglwydd yw fy mugail," canai'r côr: geiriau cyfarwydd, hoff, y salmydd... ac yr Efengyl, yr lesu ei hun, sef "y Bugail Da" ... hyd yn oed yn "ddrws y defaid."

## YMWRTHOD Â'R IAITH FEL YN OR-SYML

Pan o'n i'n oedolyn ifanc, wrth imi ddechrau meddwl yn fwy o ddifrif ac yn ddyfnach am iaith ffydd, fe wnes i ragdybiaeth: sef, gan fod y ddelwedd hon o'r bugail a'r defaid mor syml, un a ddaeth yn gyfarwydd iawn inni yn yr Ysgol Sul – mae'n siwr i chi, fel finnau, gofio'r holl oriaiu dyrys hynny a dreuliwyd gyda glanhawyr cetyn a pheli gwlan cotwm, yn creu murluniau o'r bugail a'i ddefaid – [gan fod hon yn ddelwedd gyfarwydd adeg plentyndod], mae'n rhaid ei bod yn perthyn i blentyndod, ac i blentyndod yn unig: delwedd naïf a gor-syml, fe dybiais, un y byddai'n rhaid inni, o reidrwydd – wrth ddysgu am ddiwinyddiaeth ac athrawiaeth yr eglwys, iaith yr achubiaeth – ei aael o'n holau wrth ddringo at uchelfannau'r ffydd yn oedolyn.

## DATBLYGIAD ATHRAWIAETHAU IACHAWDWRIAETH, AC IAITH GYMHLETH SOTERIOLEG

Ac ategwyd y ragdybiaeth honno wrth ddarganfod, y tu hwnt i'r ddelwedd syml, hynafol hon, fod delweddau theorïau ac athrawiaethau eraill, mwy soffistigedig, cymhleth a heriol yn cael eu defnyddio gan ddiwinyddion Cristnogol i drafod Duw a iachawdwriaeth. Mae iaith achubiaeth yn datblygu'n sydyn iawn yn rhyfeddol o gymhleth, aeddfed a soffistigedig. Gellir gosod y rhan fwyaf o'r cyfrifoldeb am y soffistigedigrwydd hyn wrth ddrws Paul, diwinydd mawr yr Eglwys Fore: gwellir ei ddirmyg tuag at iaith bugeiliaid a defaid yn y ffaith mai dim ond unwaith y defnyddiodd y ddelwedd, a hynny yn ei lythyr at y Rhufeiniaid – a bryd hynny, dim ond er mwyn ymarfer barn y salmydd mai ein tynged oll, fel defaid mewn marchnad, ydy'r lladd-dy. Doedd dim lle ym meddwl Paul i ddefaid a bugeiliaid. Yn ei sêl dros ddweud rhywbeth ynglŷn â sut beth ydy ein perthynas sylfaenol gyda dirgelwch Duw, mae Paul yn gadael y gwledig a'r bugeiliol, ac yn troi at ddefnydd iaith drefol: mae'n llawer gwell gando sgwrsio am iachawdwriaeth yn nhermau... wel, er enghraifft, yr hyn sy'n digwydd mewn llys barn: "pan fo rhywun yn cael ei ddyfarnu'n euog gan fasrnwr," ... neu, gan sylweddoli nad ydy delweddau cyfreithiol ddim at ddant pawb, mewn man arall, mae'n siarad yn nhermau economi'r farchnad, "mae iachawdwriaeth yn gyffelyb i bris a delir i brynu rhywbeth yn ôl" – prynedigaeth ydy'r gair a ddefnyddia Paul; neu, mewn man arall, yn ei ddiwylliant cyn-woke, mae'n siarad yn agored iawn am y gwahaniaeth

(though always fleetingly, always as mystery), that attempts to speak about God, and even about the mind or the will of God... it should often have been expressed in terms of the shepherd, the sheep and the dependent relationship between them. "The Lord is my shepherd," sang the choir: the familiar and much-loved words of the psalmist... and in the Gospel just now Jesus himself who is "the Good Shepherd"...even "the door of the sheepfold."

## REJECTION OF THE LANGUAGE AS OVER-SIMPLISTIC

When, as a young adult, I began to think more seriously and deeply about the language of faith, I made an assumption: that since this image of the shepherd and the sheep is so simple, one with which most of us become familiar at Sunday School – you, like me, remember, all those thrilling hours spent with pipe-cleaners, cotton wool balls making murals of the shepherd and the sheep – [since this was an image familiar from childhood] it must therefore belong to childhood, and only childhood: a naïve and over-simple image, I assumed, one which – in learning about the theology and the doctrine of the church, the language of salvation – we necessarily need to leave behind ourselves in the foothills of adult faith.

## THE DEVELOPMENT OF DOCTRINES OF SALVATION, AND THE COMPLEX LANGUAGE OF SOTERIOLOGY

And that assumption was reinforced by the discovery that beyond this simple and ancient image, there were other, more sophisticated, complex and challenging images, theories and doctrines with which Christian theologians spoke about God and salvation. The language of salvation becomes, very quickly, wonderfully complex, grown-up and sophisticated. Most of the responsibility for this sophistication can be laid at the door of St Paul, that great theologian of the Early Church: whose disdain for the language of shepherds and sheep is betokened by his only using the image once, in the letter to the Romans – and there only to rehearse the psalmist's view that, like sheep in a market, we're all destined for the abattoir. St Paul had no time at all for sheep and shepherds in his thinking. In his zeal to say something about what our fundamental relationship with the mystery of God is like, St Paul leaves the rural and the pastoral, and uses an urban language: he much prefers to talk about salvation in terms of... well, for example, what goes on in a court of law: "when a person is declared not guilty by a judge,"... or realising that legal imagery doesn't float everyone's boat, elsewhere he speaks in terms of the market economy, "salvation is like when a price is paid to buy something back" – redemption, he calls it...; or elsewhere, in his pre-woke culture, he talks quite freely about the difference between being a slave and being free – and says that "God in Christ frees us

rhwng bod yn gaethwas a bod yn rhydd – gan ddatgan fod “Duw, yng Nghrist, yn ein rhyddhau o gaethwasiaeth!”; neu, eto fyth, gan gofio fod gan y rhan fwyaf ohonon ni brofiad uniongyrchol o berthynas yn mynd o chwith, mae'n trafod mewn man arall yn nhermau cymod, lle bo un person yn achub y blaen i faddau i un arall – dyna, meddai, mae Duw'n ei wneud yn Iesu: “mae'n maddau a thrwy hynny'n cymodi.” Mae delweddau o iachawdwriaeth, delweddau sy'n mynegi'r hyn rydyn ni'n meddwl ydy Duw a'r hyn mae Duw'n ei wneud yn gyforiog yn ysgrifeniadau Paul... ond does dim sôn am fugeiliaid a bugeilio. Mae hi fel tase fo, fel fi, yn tybio fod hynny'n rhy syml, yn rhy naif, yn rhy blentynaidd – yn annigonol i'n dealltwriaeth ni – yn well o'u gadael ar ôl ar fryniau Galilea, neu yn ein plentyndod!


Wrth i'r eglwys fore dyfu, delweddau a syniadau Paul a gafodd eu hyrwyddo a'u datblygu – metafforau a gafodd eu ymhelaethu i ffurfiol athrawiaethau a theorïau cymhleth, wrth i'w ddelweddau cyfreithiol, masnachol, cymdeithasol a rhynghersonol, bob yn un ac un dros gyfnod, droi'n athrawiaethau ar gyfianwhad (p'un ai trwy ffydd, neu weithredoedd), prynedigaeth, gwaredigaeth, ail-greadigaeth, neu gymod... athrawiaethau a ddaeth, dros ganriffoedd ym mywyd yr eglwys, yn fwyfwy soffistigedig, gyda newidiadau mewn ystyr a mynegiant, ac yn destun dadlau (mewn gwirionedd, gan golli eu ffresni, ond hefyd yn datblygu rhyw rym na fwriadwyd gan Paul: grym a ddefnyddiwyd – yn aml er daioni i esbonio ac i ganiatáu inni archwilio gwirionedd Duw a chariad diamgyffred Duw tuag aton ni – ond sydd hefyd, ar adegau, wedi arwain at wrthdaro ffyrnid a threisgar rhwng pobloedd Cristnogol: fel a welwyd, er enghraifft, yn yr ymryson chwerw (marwol, yn wir) yng nghyfnod y Diwygiad Protestannaidd. Gan bod metafforau Paul, a'r athrawiaethau a dyfodd ohonynt nhw wedi'u gwreiddio (i raddau helaeth) yn y trafodaethol )– os wnewch chi neu na wnewch chi dalu hwn, yna fe fydd hyn neu'r llall yn digwydd), mae ein barn ar waith Duw yn yr iachawdwriaeth yn gaeth ym magl syniadau ynghylch dewis, penderfyniad a chost – a'r cosbau o wneud y dewisiadau neu'r penderfyniadau anghywir. Yr iaith a'r ieithwedd hyn sydd, yn aml, wedi llunio a llywio ein anghytundebau.

Trwy gydol yr amser, cafodd delwedd – metaffor – y defaid a'r bugail, ei esgeuluso a'i anwybyddu, gan gyfyngu'r sôn amdano i ddarllenidau o'r gair mewn cadeirlan ac eglwys, ac mewn emynau sentimental: yn ddelwedd rhy simpil ac yn rhy blentynnaidd if od o ddefnydd i oedolion. Wrth gwrs, pan ddaw hi'n fater o berthynas rhwng y defaid a'r bugail, does 'na fawr sôn am dalu pris, na thrafodion, na barn: yr oll a geir yma ydy ymrwymiad a chariad y bugail tuag at y defaid, awydd y bugail i'w cadw'n ddiogel a'r llawenydd digymar wrth ddod o hyd i'r colledig, ynghyd â pherthynas, cydgariad a dibyniaeth.

Dwi'n meddwl fy mod i wedi dod i sylweddoli fod y ragdybiaeth fod iaith bugeilio yn rhy syml i fod o ddefnydd, yn rrhy blentynnaidd i wrthsefyll unrhyw graffu, yn sylfaenol yn aynghywir. A bod ein greddf i adael iaith y defaid a'r bugail yn ein plentyndod yn gamgymeriad mawr o ran y cyfeiriad ryd yn wedi'i gymryd. Beth petaen ni, er

from slavery!”; or yet again, remembering that most of us have first hand experience of when relationships go wrong, he talks elsewhere in terms of reconciliation, where one person takes the initiative to forgive another, so that he says is what God does in Jesus: “he forgives and thereby reconciles.” Images of salvation, images that express who we think God is and what God does abound in St Paul’s writings... but with no mention of shepherds and shepherding. It is as if, like me, he supposes that that’s too simple, too naïve, to childlike to serve our understanding – those best left behind on the Galilean hillsides, or in childhood!

As the early church grew, it was St Paul’s images and ideas that were seized upon, developed – metaphors elaborated into doctrines and complex theories, as his legal, commercial, social and interpersonal images became, variously, doctrines justification (whether by faith, or works), redemption, liberation, re-creation, or reconciliation... doctrines that over the centuries in the life of the church became more and more sophisticated, nuanced, and argued over, (in honesty losing their freshness, but also developing a power of a sort St Paul’s never intended: a power has been used – often for good to elucidate and to allow us to explore the truth of God and God’s mysterious love for us – but which also at times has been violently unleashed among and between Christian people: as, for example, in the bitter (indeed deadly) disputes of the Reformation. Since St Paul’s metaphors and the doctrines that grow from them are rooted (for the most part) in the transactional )– if you do or don’t pay this, then this or that follows) our view of God’s work in salvation is deeply mired in ideas of choice, judgement and cost – and the penalties of making the wrong choices, or judgements. It is this language that has often shaped our conflicts.



Canon Alan Gyle  
Canon Quintus

enghraifft, yn rhoi ystyriaeth eto i'r ddelwedd hynafol hon, a myfyrio arni o'r newydd yn ein calonnau.

## DAETH DUW I FOD YN SYNIAD

Dwi'n meddwl y gallai tri pheth defnyddiol iawn ddilyn... Yn gyntaf, oherwydd ein byd ôl-Oleuedig modern, i awr ohonon ni, mae Duw yn barod iawn wedi dod yn syniad: rydyn ni'n meddwl am Dduw, ac mae theorïau cymhleth yn cyfrannu at hyn. Ond mae ein ffydd yn ein gwahodd i berthynas â Duw. Mae angen inni gwyro hyn, os ydyn ni am fod yn fyw yn ein ffydd. Wrth ymgysylltu'n greadigol yn y berthynas rhwng y defaid a'r bugail, yn fuan iawn medrwn ffurffio ymdeimlad grymus iawn o sut mae'r berthynas rhwng y defaid a'r bugail yn teimlo: mae'r defaid yn gwybod fod y bugail yno; mae gan y defaid ofalon eraill megis pori, bridio a chrwydro yma ac acw ar hyd y bryniau – ond trwy gydol yr amser, mae'r bugail yno – ac yn y sicrwydd yna, mae dyfnder o gysur i'w gael... fe wyddon ni sut beth ydy bod yn ddiogel, i deimlo ein bod yn cael ein caru ac yn werthfawr: ac onid hynny sydd wrth wraidd yr hyn a synhwyrwn, yn wir, yr hyn a wyddon ni, fel pobl Dduw: pori (fel ydyn ni), bridio, crwydro yma ac acw ar hyd bryniau ein dychymyg – yn synhwyro, er gwaethaf popeth sy'n tynnu'n sylw, ein bod yn cael ein caru, a bod yr hwn sy'n ein caru yn ewyllyso ein lles, a'n bod yn ddiogel, yn dragwyddol. O fyfrio ar y berthynas rhwng bugail a'i ddefaid, fe ddown i ddealltwriaeth dyfnach o'n perthynas â Djuw: nid Duw fel syniad, ond Duw fel yr un sy'n ein caru, yr hwn sy'n byw gyda ni, a ninnau gydag yntau.

## MAE DUW'N EIN CARU AT RYDDID

Mae 'na ail reswm hefyd pam y dylen ni ymgysylltu â'r ddelwedd hon o'r newydd. A dyma fo: fel pol gyfoes, fe wyddon ni mai agwedd ddiffiniol o'n profiad fel dynol ryw ydy ein rhyddid – a'r gwerth rydyn ni'n ei roi arno. Rhodd gan Dduw ydy cariad at ryddid – dyna'r ffordd y'n crewyd. Sut mae cymhathu gwerthfawrogiad dwfn o ryddid gyda bywyd o ffydd? Wel, fel y berthynas hon rhwng bugail a'i ddefaid, lle gwelir dibyniaeth lwyd ond hynny o fewn byd o ryddid. Y berthynas ddeinamig, ddibynnol hon, wedi'i wreiddio mewn cariad a rhyddid, ydy'r model o'r hyn a ddeallwn ydy ein perthynas â Duw. Yn ein byd cyfoes, yn ein heglwys gyfoes, esgeuluso wnawn ni y berthynas ddelicet, ddeinamig hon... gor-ddyrchafu'n hunain (fel ein bod yn meddwl mai *ni* ydy Duw), neu disgyn i ddibyniaeth ddiymadferth. Mae ganddon ni gymaint i'w ail-ddysgu am gwir ryddid ac urddas ddynol trwy fyfrio ar y berthynas ddeinamig rhwng defaid a bugail.

## IACHAWDWRIAETH GYFFREDINOL?

Ac mae un mater arall, sy'n allweddol i'r 21ain ganrif, sy'n gymorth inni ymgysylltu â'r ddelwedd hon, a dyma'r trydydd peth. I fynd ar Foel Hebog, mae'r cwt cerrig, y gorlan hynafol, oddeutu saith metr mewn diamedr. Digon o le i grynni nifer o ddefaid! Yn ôl loan, meddai lesu: "ond y mae gennyd ddefaid eraill hefyd, nad ydynt yn perthyn i'r

All the while, the image – the metaphor – of the sheep and shepherd was neglected, their mention reserved to gospel readings in cathedrals and churches, and sentimental hymns: this image too simple and childish to be of grown-up use. Of course when it comes to the relationship between the sheep and the shepherd, there isn't much about paying the price, or transaction, or judgment: there's just commitment to and love of the sheep by the shepherd, the shepherd's desire for their safety and delight when the lost are found, and relationship, a mutual love and dependency.

I think I have come to realise that the assumption that the language of shepherding is too simple to be of use, to childish to stand up to scrutiny, is simply wrong. And that our instinct to leave the language of sheep and shepherds in childhood has been a great error in the direction we have taken. What if, I wonder, we return to the contemplation of this ancient image, and ponder it afresh in our hearts.

## GOD HAS BECOME AN IDEA

I think three really useful things might follow... First, because in our post-Enlightenment modern world, for many of us God readily becomes an idea: we think about God, and complex theories contribute to this. But our faith invites us into a relationship with God. We need to correct this, if we are to be alive in our faith.

Imaginatively engaging the relationship between the sheep and the shepherd, we can quickly form very powerful sense of what the relationship between the sheep and the shepherd feels like: the sheep know the shepherd is there; the sheep have other concerns, grazing, breeding, wandering up and down hills – but all the while the shepherd is there – and in that knowledge is profound existential comfort... We know what it means to feel safe, and to feel loved and valued: and is not that at the heart of what we sense, indeed know as God's people: grazing (as we do), breeding, wandering up and down hills of our own making – sensing that despite our distractedness we are loved, and that the one who loves us wills for our well-being, and that we are safe, eternally. If we ponder the relationship between shepherd and sheep, we reinforce our understanding of our relationship with God: not God as an idea, but God as the one who loves us, in whom we abide.

## GOD LOVES US INTO FREEDOM

There's a second reason too, that we should engage this image anew. And it is this: as modern people we know that a defining aspect of our human experience is our freedom – and the value we place on it. Such a love of freedom is God-given, it is the way we are created. How does a deep valuing of freedom sit with a life of faith? Well, just as in this relationship between shepherd and sheep, where there is ultimate dependency but within a world of freedom. This dynamic, dependent relationship rooted in love and freedom, is the model of how we know our relationship with God to be. In our modern world, in our modern church, we neglect this delicate and dynamic

gorlan hon." Yn yr Ysgrythyrau, roedd hyn bron yn sicr yn gyfeiriad at y Cenhedloedd, a oedd yn gorwedd y tu hwnt i fyd Idnewig yr Efengyl – ond wrth gwrs, mae ganddon ni, yn yr 21ain ganrif, rhyw synnwyr llawer ehangach o bwy all y defaid eraill fod. Fe fyddai ein hynafiaid mwyaf mentrus yn y fan hyn wedi teithio at y dref farchnad agosaf, rhai ar hyd a lled gogledd Cymru – eraill – coeliwch neu beidio – hyd yn oed wedi croesi'r ffin i Loegr! Hyd yn oed yn y fan honno, lluniwyd syniadau am iachawdwriaeth o feddwl am bobl a oedd yn weddol debyg i ni! Ond rydyn ni'n teithio'n fydd-eang: rydyn ni'n ymwybodol, nid yn unig o wahaniaethau cenedlaethol, ond o fyd amrywiol ryfeddol o wahanol bobloedd a chredoau ac ideolegau – byd eang o bobl o ewyllys da... Ac mae'n fwy na hynny, hyd yn oed, gan fod gwyddoniaeth, yn yr 21ain ganrif, yn ein galluogi i deithio'r tu hwnt i'r byd hwn, i'n system solar – ac mae'n caniatáu inni gipolwg ar fawredd a gogoniant creadigaeth gyfan Duw... bydoedd pell tu draw... lle, efallai, medd rhai, mae creaduriaid ymdeimladol yn bodoli sydd, o bosib, yn gwbl wahanol i ni. Yn wyneb yr ymdeimlad hwn, mae ein hathrawiaethau soffistigedig, traddodiadol am iachawdwriaeth (pwy sydd i mewn a phwy sydd tu allan, a sut) yn mud yn fud: os ydy Duw, yng Nghrist, yn achub ei greadigaeth gyfan, sut mae ein diwinyddiaeth draddodiadol yn medru dechrau mynd i'r afael â hyn? Os, ar y llaw arall, yr awn ni'n ôl at ddelwedd Feiblaidd, symlaich, fe ddown wyneb yn wyneb â chalon y cwestiwn a'r her i ni: pa faint o gorlan fedrwn ni feiddio'i dychymgu sydd gan y Bugail Da: pwy mae Duw'n dymuno dwyn i mewn... feiddiwn ni risgio rhoi'r gorau i hen theorïau blinedig ynglŷn â phwy sydd allan a phwy sydd i mewn, a chodi ein golygon at fawredd creadigaeth Duw a chariad Duw, yn meiddio credu ac ymddiried mewn Duw sydd, fel y Bugail Da, yn ewyllysio y caiff pob un o'i ddefaid eu dwyn i ddiogelwch?

Mewn epigram, dywedodd William Markham:

*He drew a circle that shut me out –  
Heretic, rebel, a thing to flout.  
But love and I had the wit to win:  
We drew a circle and took him in!*

Feiddiwn ni ddychymgu'r Bugail Da – ein Duw ni, fel yr un, wrth greu popeth, sy'n ewyllysio eu hachubiaeth, ac onid ydy ein delwedd o Dduw a chariad Duw yn llawer rhy fach?

Dydy syml ddim yn golygu di-rym. Dydy naïf ddim yn golygu ddim yn ddefnydiol. Gall syniadau barddonol fod yr un mor chwyldroadol ag athrawiaethau soffistigedig. Mae'n ddigon posib i ddelwedd y Bugail Da a'r defaid fod yn beth defnyddiol inni ffyfrio arni dros gyfnod y Pasg hwn. [P]

relationship... over-aggrandising ourselves (so that we begin to think that **we** are God), or falling into hopeless dependency. We have much to re-learn about true freedom and human dignity by reflecting on the dynamic of the relationship between sheep and shepherd.

## UNIVERSAL SALVATION?

And there is one more vital 21st century issue that this image helps us to engage, and this is the third thing. Up on Moel Hebog, the stone circle, the ancient sheepfold, is the best part of seven metres in diameter. That's space for a lot of sheep! St John has Jesus say, "But I have other sheep who are not of this fold." In the Scriptures, this was almost certainly a reference to the Gentiles, who lay beyond the Jewish world of the Gospel – but of course we, in the 21st century, have a greatly expanded sense of who those other sheep may be. Our most ambitious ancestors here might have travelled to the nearest market town, some across North Wales – others – heavens – even across the border into England. Even there, ideas of salvation were formed in thinking about people who were broadly like us! But we travel globally: we are aware not only of national differences, but of an amazing kaleidoscopic world of different peoples and faiths and ideologies – a vast world of people of good will... And it is bigger even than that: for in the 21st century science enables us to travel beyond this world, into our solar system – and it permits us glimpses of the majesty of God's whole creation... worlds that lie beyond... inhabited, perhaps some say, by sentient creatures perhaps hugely different from ourselves. In the face of this sense, our traditional sophisticated doctrines of salvation (who is in and who is out, and how) fall silent: if, in Christ, God saves the whole of his creation, how does our traditional theology even begin to address this? If, though, we return to a simpler, Biblical image, we are confronted with the heart of the question and the challenge to us: just how big a sheepfold do we dare to imagine the Good Shepherd has: who does God desire to draw in... dare we risk abandoning weary theories about who is out and who is in, and raising our eyes to the immensity of God's creation and God's love, dare to believing and trusting in a God who, as the Good Shepherd, wills that all his sheep be drawn into safety?

In an epigram, William Markham said:

*He drew a circle that shut me out –  
Heretic, rebel, a thing to flout.  
But love and I had the wit to win:  
We drew a circle and took him in!*

Dare we imagine the Good Shepherd – our God, as the one who creating all things, wills for their salvation, and is not our image of God and God's love far too small?

Simple, doesn't mean without power. Naïve, doesn't mean not useful. Poetic ideas can be as revolutionary as sophisticated doctrines. The image of the Good Shepherd and the sheep might just be a useful thing for us to contemplate this Eastertide. [P]

# FEL YR ENFYS



wi mor falch o weld baner yr enfys yn cwhwfan uwchben ein Cadeirlan. Mae pob enfys yn arwydd llawen. Yn cyfeirio oddi wrth gymylau a stormydd at amseroedd gwell – fel dywed y gân enwog, “Rhywle draw dros yr enfys”, i le lle gwreddir breuddwydion. Ond nid yn unig i fyfeillion Dorothy mae'r enfys yn bwysig. Mae hi'n destun balchder i mi ein bod ni wedi'i wreiddio yn nhraffodiad Beiblaidd, yr enfys oedd arwydd addewid gobaith Duw. Yn hanes Noa, mae'r enfys yn ddatganiad o ymrwymiad Cyfamod. Mae'n arwydd gan Dduw ynglŷn â pherthynas. Mae'n sôn am yr hyn ydy Duw yn y modd y mae angen inni glywed. Datganiad ydy'r enfys ar ran Duw na fydd byth yn Dduw distryw a chondemniad ond, yn hytrach, addewid dyhead Duw i bawb ffynnu ac i ganfod eu pwrrpas da.

Dyma'r hyn a glywson ni o lyfr y proffwyd Eseia, sy'n disgrifio "fel y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaear, y mae fy ffyrdd i yn uwch na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi" – dydy Duw ddim fel ni. Mae ganddon ni gymaint i'w ddysgu. Ac mae'r dysgu hwnnw wedi'i osod allan yng ngeiriau lesu fel y clywson ni yn y darlleniad o'r Gair ynglŷn â pha mor hael mae Duw'n hau hadau'r gair trwy'r greadigaeth. Yn y stori am yr hadau'n ceisio tyfu mewn gwahanol lefydd, mae lesu'n cynnig darlun o'n hymatebion gwahanol ni i air Duw.

Weithiau mae gair Duw yn disgyn ar lwybr lle mae'n agored ac yn methu

# LIKE THE RAINBOW

**Pregethwyd y bregeth  
hon gan Esgob  
Cynorthwyl Bangor, y  
Gwir Bachg Mary Stallard,  
yn nathliad Caplaniaeth  
LHDTc+ yr esgobaeth yn  
y Gadeirlan yn ystod mis  
Pride.**

**This sermon was preached  
by the Assistant Bishop of  
Bangor, the Rt Revd Mary  
Stallard, at the diocesan  
LGBTQ+ Chaplaincy's  
celebration at the  
Cathedral during Pride  
month.**

I am so glad we have the rainbow flag flying above our Cathedral. Rainbows are joyful signs. Pointing away from clouds and storms to brighter times – as the famous song “Somewhere over the rainbow” says, to a place where dreams come true. But rainbows are not only important for friends of Dorothy. It’s a matter of pride to me that we’re flying a flag rooted in Biblical tradition, the rainbow being the sign of God’s promise of hope. In the story of Noah the rainbow is a declaration of Covenant commitment. It’s a sign from God about relationship. It speaks about who God is in terms we need to hear. The rainbow’s a declaration on God’s part never to be a God of destruction and condemnation, but rather a promise of God’s longing for all to flourish and to find their good purpose.

This is what we heard from the book of the prophet Isaiah, who describes how “as the heavens are higher than the Earth, so are God’s ways higher than our ways and God’s thoughts than our thoughts” God is not like us. We have so much to learn. And that learning is set out in the words of Jesus as we heard in the Gospel reading about how God generously scatters the word amongst creation. In the story of the seeds trying to grow in different places Jesus offers a picture of our different reactions to God’s word.

Sometimes God’s word falls as upon a path where it is exposed and cannot survive. Sometimes it falls in places where it’s stony, or is choked by other

goroesi. Weithiau mae'n disgyn mewn llefydd sy'n garegog, neu'n cael ei dagu gan bethau eraill ond, weithiau, mae gair Duw'n disgyn mewn tir da, lle gall wreiddio a dwyn ffrwyth. Lle mae'n disgyn i ni? Dut ydyn ni'n clywed ac yn ymateb i air Duw?

Efallai fod yr enfys yn cynnig ein cyfeirio ni tuag at yr hyn mae'n ei olygu i ddysgu derbyn gair, trawsnewidiol, croesawgar Duw.

Mae coch yn bresenoldeb llachar - yn atgoffa rhywun o'i rôl yn y goleuadau traffig yn datgan "stop". Mae'r eglwys yn aml wedi bod yn gadarn iawn, yn rhy gadaern yn dweud "na". Does dim croeso yma. Chewch chi ddim gwneud hyn. Ddylech chi ddim bod felly. Mae Coch yn aml wedi dynodi lliw cywilydd ac yma eto, mae'r ffydd Gristnogol, ar adegau, wedi bod yn fan lle bu llawer o siarad am gywilydd. Fe fuon ni'n gwneud hyn yn enwedig i ferched, i bobl wedi ysgaru, i bobl hoyw ac eraill a welir fel yn "wahanol". Gall cywilydd ein cysylltu, mae'n rhywbeth rydyn n ii gyd yn ei deimlo weithiau, ac fe all fod yn sbardun defnyddiol, ond ddylai fyth fod yn fan cyrraedd neu'r lle i gyfeirio eraill ato fel man terfyn. Cywilydd ydy'r man y dygodd lesu pobl allan ohono a rhoi urddas iddyn nhw, ac fe ddylen ni wneud yr un peth.

Ond yn y ffydd Gristnogol, ceir hefyd ddefnydd rhyddhaol o goch. Coch ydy lliw Pentecost, y tymor rydyn ni'n ei ddatlhu ar hyn o bryd, tymor yr Ysbryd Glân, sy'n dod â newid bywyd, sy'n ein galluogi i wneud pethau Newydd, i ddod yn bobl fwy cyflawn y gwnaeth Duw inni i fod. Coch hefyd ydy lliw gwaed gwerthfawr y cariad a dywalltwyd. Dyma liw y cydseffyll cadarn y mae Cristnogion yn aml wedi'i ganfod yn hanes y Crist. Wrth fyfyrto ar ei siwrne o drawsnewid, ysgrifennodd Rachel Mann, yr offeiriad, bardd a'r llenor, am yr help a ganfyddodd yng nghariad iachaoi Duw, gan ddweud, "Fedra i ddim esbonio'n iawn sut fod cydgeflogaeth Duw yn drawsnewidiol. Efallai mai dyna'r pwynt: mae'r cariad sy'n sefyll gyda ni, sy'n gwaedu gyda ni, ac na fydd byth yn cefnu arnon ni, y tu hwnt i esboniad."

Mae coch yn dweud wrthon ni am iachad Duw, cariad gwerthfawr, am glwyfau Crist a'n galwad ninnau i garu mewn modd hael, tebyg. Coch ydy lliw cariad.

Oren neu ambr ydy lliw aros neu oedi ger y goleuadau gtraffio. Mae hefyd yn liw sy'n awgrymu newid a thrawsnewid sydd i ddod. Bydd llawer honon ni'n ymwybodol o'r ymdeimlad o ddiamynedd o ddyheu am newid sy'n ymddangos mor araf i'w wireddu, ond oren hefyd ydy lliw'r wawr – yn ein hatgoffa am yr Haul sy'n codi'n ddiffael, yn arwydd o ffydd atgyfodol i ni Gristnogion, ymddiriedaeth mewn Duw sydd bob amser yn dod â bywyd newydd, sy'n dweud wrthon ni fod bob amser gobaith, bob amser addewid dechrau newydd a llechen lân.

Nodweddir melyn weithiau fel lliw ofn, ac mae llawer honon ni'n gwybod (gormod) am ofn. Gall ofn hefyd fod yn ddefnyddiol, yn ein hamddiffyn rhag perygl. Y perth pwysig gydag ofn ydy deal ei berthynas â chariad ac i beidio â gadael i ofn ein gyrru ni fwy na

things, but sometimes God's word falls on good soil where it can take root and grow and yield fruit. Where does it fall for us? How do we hear and respond to the word of God?

Perhaps the rainbow offers pointers towards what it might mean to learn to accept the transforming, welcoming word of God.

Red speaks vividly of a traffic light saying "stop". The church has often been very strong, too strong at saying "no". You are not welcome. You cannot do this. You should not be this. Red has often also been the colour of shame and again the Christian faith has sometimes been a place where we have spoken much of shame. We have done this especially to women, to divorced people, to gay people and others perceived as "different". Shame can connect us, it's something we all feel sometimes, and it can be a useful trigger, but it should never be our destination or the place to which we direct others as an end point. Shame is a place from which Jesus raised people to dignity and we should do the same. But there are more liberating uses of red in the Christian faith. Red is the colour of Pentecost the season we are celebrating now the season of the



Ar derfyn yr orymdaith Pride yng Nghlos y Gadeirlan fis Mehefin  
Welcoming the Pride parade into the Cathedral Close in June

dim arall. Os medrwn wynebu'n hofnau a bod yn ddewr, fedrwn ni gyflawni pethau rhyfeddol. Ac mae angen dewrder if od yn bobl Dduw. Mae hi'n cymryd cryn ddewrder i faddau i'n hunain ac i faddau a derbyn eraill nad ydyn nhw fel ni. Dyma aur y cariad atgyfodol yn cael ei weithredu, aur cariad tebyg i gariad Crist ac felly'n liw'r Nadolig a'r Pasg sy'n adlewyrchu rhodd a gobaith cariad.

Gwyrrdd ydy lliw'r greadigaeth a phopeth sy'n tyfu. Mae gwyrrdd yn liw sy'n dweud "ewch", symudwch ymlaen, lliw ie – "Amen" i ffyrrdd Duw. Ac ar yr adeg hyn ym mhob un o'n cydberthynasau, mae angen mwy o wyrdd arnon ni. Mae gan y rhai hynny sy'n ein hannogi fod yn fwy agored, mwy goddefgar, mwy cynhwysol yn ein cydberthynasau, hefyd ddoethineb mawr wrth iddyn nhw ein hannog i fyw mewn perthynas gwell, mwy rhyddhaol gyda'r greadigaeth o'n cwmpas. Mae gofyn inni fod yn fwy gwyrrdd.

Cysylltir glas yn aml gyda thristwch ac mae'r rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â phoen torri perthynas a straen yn gallu uniaethu â "theimlo'n las" On glas hefyd ydy lliw y môr a'r awyr, o uchder a dyfnder creadigaeth sy'n ein hatgoffa o natur anesboniadwy gwir



Cyfeillion o'r Gadeirlan a'r esgobaeth yn yr orymdaith Pride  
Friends from the Cathedral and the diocese in the Pride parade

Holy Spirit who brings life change who enables us to do new things to become more fully the people God made us to be. Red is also the colour of costly love of blood poured out. It's the colour of the solidarity that Christians have often found in the Christ story. Priest, poet and writer Rachel Mann, reflecting upon her story of transition has written about the help she found in the healing love of God, saying, "I cannot quite explain how God's solidarity is transformative. Perhaps that's the point: the love which stands beside us, which bleeds with us, and will not walk away is beyond explanation."

Red speaks to us of God's healing, costly love, of the wounds of Christ and our calling to love in a similar generous way. Red is a colour of love.

Orange or amber is the colour of waiting at a traffic light. It's also a colour that hints at change and transition to come. Many of us will know the impatience of longing for change that seems to come only slowly, but orange is also the colour of the dawn a reminder of the Sun that always rises. For Christians this points to a resurrection faith, a trust in a God who always brings new life, who tells us that there is always hope, always the promise of a new start and a fresh beginning.

Yellow is sometimes characterised as the colour of fear, and many of us know a lot (too much) about fear. Fear can also be useful if it can protect us from danger. The important thing with fear is to understand its relationship to love, and not to let fear be our biggest driver. If we can face our fears and have courage we can do amazing things. And we need courage to be God's people. It takes great courage to forgive ourselves and to forgive and accept others who are not like us. This is the gold of resurrection love lived out, the gold of Christ-like love and so the colour of Christmas and Easter that speak of the gift and the hope of love.

Green is the colour of creation of all that is growing. Green is a colour that says "go," move forwards, the colour of a yes - an "Amen" to God's ways. And at this time in all our relationships we need more green. Those who encourage us to be more open, more understanding more inclusive in our relationships also have great wisdom when they encourage us to live in a better more liberated relationship with creation all around us. We need to be more green.

Blue is often associated with sadness and those who know the pain of break ups and stress may know what it is to be blue. But blue is also the colour of sea and sky, of height and depth in creation that remind us of the unfathomable nature of true love, of the depths of real relationships. When we fall in love, when we really love another person there is always more for us to explore, constantly greater depth in the other for us to discover. This is always true of the God whose openness and desire always encourages us to go deeper to learn more to trust more fully. To strive for new horizons and to plumb greater depths this is what it means to love with open hearts.

Indigo is perhaps the most puzzling colour in the rainbow, the colour that invites question. Is it more blue or is it more purple? What's its

gariad, o ddyfnderoedd gwir berthynas. Pan fyddwn ni'n syrthio mewn cariad, pan ddown ni i garu person arall go iawn, mae cymaint mwy bob amser i'w ganfod, treiddio'n bellach i'w ddyfnderoedd. Mae hyn bob amser yn wir am y Duw y mae ei rhadlondeb a'i ddyheuad bob amser yn ein hannog i fynd yn ddyfnach i ddysgu mwy i ymddiried mwy. Anelu at orwelion newydd a phlymio'n ddyfnach fyth ydy beth mae'n ei olygu i garu gyda chalonnau agored.

Indigo, o bosib, ydy'r lliw mwyaf astrus yr enfys, y lliw sy'n gwahodd cwestiwn: ydy o'n fwy glas neu'n fwy porffor? Beth ydy'r berthynas rhyngddo â choch, pa liw ydy o mewn gwirionedd? Mae Indigo, efallai, yn debyg i'r rhan QIA+ yn enfys Pride. Un o ddoniau mwyaf y drafodaeth bresennol yngylch rhywedd hunaniaeth a chwestiynu ydy'r modd y mae hyn yn ein helpu ni i fyfyrion ddiwinyddol ar yr hyn ydy Duw a phwy mae Duw'n ein galw ni i fod. Efallai fod y cwestiynwyr hynny sy'n bendithio ein cymunedau yn ein hatgoffa o rannau o ddysgeidiaeth hynafol. Mae Duw yr Ysgrythyrau Hebraeg yn gwrthod cael ei gyfyngu. Yn ein Beiblau, mae enw Duw'n cael ei fyrhau. Lle darllenwn ni "yr Arglwydd", Duw yn llythrennol "Ydwyt yr hyn ydwyt, fe fyddaf yr hyn a fyddaf", ac os ydyn ni am wybod, fe geir rhagenwau Duw yn eithaf buan yn y Beibl, Genesis 1:26 – "ein" a "ni", "Gwnawn ddyn ar ein delw, yn ôl ein llun ni". (Ac i bwy bynnag sy'n dweud wrtha i, "Mary, dydy "ein" ddim yn ragenw, mae'n benderfynodol-feddiannol," dwi'n dweud, "Peidiwch â bod mor ddeuaidd gyda'ch rheolau gramadeg"). Rydyn ni wedi camryweddu Duw'n ddi-baid neu, o leiaf, wedi cyfyngu Duw yn nelweddu cyfyngedig llawer gormod o'n litwrgi. Mae Duw'n gymaint mwy nag "Arglwydd" a "Thad". Ac, efallai, fod Indigo'n ein hatgoffa o bwysigrwydd o amrywiaeth, urddas amrywiaeth a'r gwerth mewn cwestiynu – bod yna gymaint mwy i'w ddarganfod am Dduw.

Fioled – lliw olaf yr enfys ydy'r lliw mwyaf drudfawr, ac felly hefyd yn liw brenhinoedd ac esgobion - lliw awdurdod, ond os ydyn ni am fod yn driw i'n dealltwriaeth feiblaidd o rym ac awdurdod (edrychwch ar ail bennod Llythyr yr Apostol Paul at y Philipiaid os am grynodeb da), dydy'r grym y soniai lesu amdano ddim yn hunangfeiriol. Mae cariad duwiol bob tro'n ceisio galluogi eraill, i godi'r rhai hynny sy'n fregus neu'n brifo neu a gamwahaniaethir ac yn helpu rhannu'r doniau da Duw i fendithio'r greadigaeth gyfan.

Wrth inni ail-lansio'r Gaplaniaeth LHDTc+ esgobaethol heddiw, gweddiwn dros ein dewisiadau da a thwf fel cymuned Gristnogol ac fel unigolion. Am ymrwymiad gan bob un ohonon ni i weithio ar y rhannau hynny o'n bywydau lle rydyn ni'n tynnu'n groes i Dduw neu'n ymrthod â'r rhai hynny sydd ddim fel ni. Ac am ffyniant gorfoeddus i holl greadigaeth amrywiol Duw.

*Grist yr Enfys, ti sy'n goleuo'n byd. Fel yr enfys, boed i ninnau adlewyrchu, ymgorffori, cofleidio yr oll sy'n dda yn y greadigaeth a bod yn arwydd gobaith i eraill. Amen.* 

relationship to red, what colour is it really? Indigo is perhaps like the QIA+ part of the Pride rainbow. One of the greatest gifts of current conversations around identity gender and questioning is the way this helps us to theologically reflect upon who God is and who God calls us to be. Perhaps the questioners who bless our communities remind us of some ancient learning. The God of the Hebrew Scriptures will not easily be pinned down. God's name is shorted in our Bibles.

Where we read Lord, God literally is "I am who I am, I will be what I will be", and if we want to know, God's pronouns they are given quite early on in the Bible, Genesis 1:26 – "us" and "our", "Let us make human kind in our image." (And to anyone who tells me, "Mary, 'our' is not a pronoun, it's a determinative possessive," I say, "Don't be so binary about your grammar rules"). We have relentlessly mis-gendered God or at least limited God in the restricted imagery of far too much of our liturgy. God is so much more than "Lord" and "Father. And maybe Indigo reminds us of the importance of variety, the dignity of difference and the value of questioning - that there is always much more to discover about God.

Violet – the last colour of the rainbow is the most expensive colour, and so it is the colour of queens and of bishops - the colour of authority, but if we are true to our biblical understanding of power and authority (look at the second chapter of Saint Paul's Letter to the Philippians if you want a good summary) the power that Jesus talks about is not self-regarding. Godly love always seek to empower others, to raise up those who are vulnerable or hurting or discriminated against and to help share out the good gifts of God to bless the whole of creation.

As the diocesan LGBTQ+ Chaplaincy is re-launched today we pray for our good choices and growth as a Christian community and as individuals. For a commitment from all of us to work at the parts of our lives where we resist God or those who are not like us. And for a joyful flourishing of all God's diverse creation.

*Rainbow Christ, you light up the world. Like the rainbow, may we reflect, embody and embrace all that's good in creation and be a sign of your hope for others. Amen. [P]*



Esgob Cynorthwyol Bangor  
The Assistant Bishop of Bangor

# 4. PAN FO PETHAU DRWG YN DIGWYDD

---

Mae Esgobion a Chorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru wedi ein gwahodd, yn ystod 2022, i ymgysylltu'n ddfyfnach â geiriau'r Beibl. Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yng Nghadeirlan Deiniol Sant yw trwy bum erthygl yn **Buchedd Bangor** a fydd yn ein dwyn yn agosach at yr Efengyl yn ôl Sant Luc.

Rydyn ni wrth ein bodd o gael ein tywys gan y Parchg Luigi Gioia. Diwinydd ac ymchwilydd ym Mhrifysgol Caergrawnt yw Luigi Gioia ac mae'n arfer ei weinidogaeth yn Eglwys Sant Paul, Knightsbridge yn Llundain.

Mae'r traethodau byr hyn ar Luc yn fenter ddeallusol sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth. Ond maent hefyd yn offrwm ysbyrydol. Gadewch inni gnoi cil ar eiriau Luigi, a myfyrio arnynt yn weddîgar, wrth inni yfed yn ddwfn o air sanctaidd Duw yn y Beibl.



Luigi Gioia  
gan | by Rona Lane

# B

**ydd pwy bynnag** fu'n byw yn Rhydychen yn gyfarwydd â sgwâr Gloucester Green Town. Mae hi bob amser yn fwrlwm o bobl sy'n ymweld â'r farchnad neu'n mynd a dod o'r orsaf fysiau sydd yn union tu cefn, ar yr ochr orllewinol. Ychydig oddi ar gornel ogledol y sgwâr, yn Gloucester Street, roedd coeden castanwydden fawreddog a oedd wedi gwrrthsefyll a goroesi pob math o dywydd a gwaith adeiladu am ddegawdau lawer. Yna, un diwrnod yn 2002, ar Hydrain 28th, cafwyd storm – nid un arbennig o difrifol os gofia i. Dwi'n cofio'n iawn treulio'r diwrnod hwnnw'n gweithio yn fy 'stafell, yn St. Giles, rhyw ychydig funudau o gerdded o Gloucester Green. Gallwch ddychmygu fy syndod pan glywais i, amser cinio'r diwrnod hwnnw, for castanwydden 20 tunnell wedi'i ddadwreiddio gan y gwynt ac wedi gwasgu car gyda phedwar o bobl ynddo. Fe lwyddo tri i oroesi ond, yn dorcalonus, lladdwyd merch 22 oed.

Er nad ydy damweiniau fel hyn, er mawr dristwch, yn anarferol, mae hon yn un sydd wedi serio ar fy meddwl – ac nid yn unig oherwydd imi arfer cerdded neu seiclo heibio'r goeden honno bron yn ddyddiol ac, yn amlwg, roedd rhan ohona i'n methu peidio â medwl: "Fase 'di gallu bod yn fi".

# 4. WHEN BAD THINGS HAPPEN

---

The Bishops and Governing Body of the Church in Wales have invited us, during 2022, to engage more deeply with the words of the Bible. One of the ways in which we are doing this at Saint Deiniol's Cathedral is by five articles in **Buchedd Bangor** that will draw us closer to the Gospel according to Saint Luke.

We're delighted that our guide is the Revd Luigi Gioia. Luigi Gioia is a theologian and researcher at Cambridge University and exercises his ministry at St Paul's Church, Knightsbridge in London.

These short essays on Luke are an intellectual enterprise, deepening our knowledge. But they are also a devotional, spiritual tool. Let us take time to digest Luigi's words, to reflect on them, and to use them as preparation for prayer, as we drink deeply from God's holy word in the Bible.

W

hoever has lived in Oxford is familiar with Gloucester Green Town square. It is always bustling with people who visit the market or come and go from the bus station which is just behind it, on its West side. Just off the North corner of the square, in

Gloucester Street, there was an impressive chestnut which had withstood all sorts of weather and construction works for several decades. Then one day in 2002, on October the 28th, there was a storm – not a particularly powerful one in my memory. I distinctly remember spending that day working in my room, which was in St Giles, just few minutes' walk from Gloucester Green. You can imagine my shock when, at lunch time that day I was told that the 20-tonne chestnut had been uprooted by the wind and had crushed a car with four people in it. Three of them survived, but tragically a 22-year-old girl was killed.

Even though accidents of this kind are sadly not unusual, this one is forever branded in my memory – and not just because I used to walk or cycle by that tree almost daily and obviously part of me couldn't help thinking: "It could have been me".

Yr hyn sy'n gwneud y ddamwain yn fythgofiadwy i mi ydy pa mor annynol ydy tynged: beth oedd y siawns i'r ferch ifanc druan honno fod yn yr union fan ar yr union eiliad y dymchwelodd y goeden. Pan fo damweiniau fel hyn yn digwydd, fe gawn ein llethu gan deimlad ein bod mor ddiymadferth – fel mae'n siwr i gyfoedion lesu deimlo ynghylch y "deunaw hynny y syrthiodd y tŵr arnynt yn Siloam a'u lladd" (Luc 13:4). Agwedd ddiffiniol o'r seicoleg ddynol ydy ein bod yn andros o anghyfforddus gyda'r syniad o ddigwyddiadau drwg yn digwydd ar hap. Fedrwn ni ddim â gwirthod y demtasiwn i chwilio am

---

## MAE EUOGRWYDD YN TROI I Mewn Arno Fe'i Hun, Fel A Wnawn Ninnau Pan Gawn Ni Anaf Ac Am I Neb Ei Gyffwrdd Gan Ei Fod Yn Brifo Gymaint

---

ryw resymeg ynghlwm â'r holl beth. Mynegiant ydy hyn o'n hangen ni i geisio ailsefydlu rheolaeth – ac mae'r awydd yma yn mynd cyn balled â hyd yn oed bob yn barod i gymryd y bai, gan gredu, pan fo pethau drwg yn digwydd, mae'n rhaid mai ni sy'n haeddu cael ein cosbi, eu bod yn fynegiant o farn duwiol. Mae'n well ganddon ni ddewis euogrwydd, na dod i delerau gyda'r gwir annifyr, sef nad oes unrhyw resymeg o gwbl yn rheoli digwyddiadau o'r fath – yn blwmp ac yn blaen, maen nhw, yn afresymol, rhwystredig a disynnwyr, yn digwydd ar hap ac yn fympwyol.

Mae lesu'n gwybod mai'r reddf ddynol hon ydy'r rhwystr ysbyrydol fwyaf i'w ddatguddiad o gariad y Tad. Dydy euogrwydd ddim eisiau maddeuant – dim ond troi i mewn arno fe'i hun, fel a wnawn ninnau pan gawn ni anaf ac am i neb ei gyffwrdd gan ei fod yn brifo gymaint. Ond dim ond wrth inni ollwng gafael ar ein rheolaeth i feddyg neu nyrs y cawn ni ein hiachau, gan drynstio y gallen nhw ofalu amdano, hyd yn oed os bydd yn brifo ar y dechrau.

Os mai dyma sut mai hi felly, os nad ydy'r digwyddiadau trasig yn ein bywydau yn ryw ffurf ar gosb, pa synnwyr wnawn ni oo'r frawddeg a ailadroddir yn efengyl Luc: "Os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yn yr un modd" (Luc 13:3,5)? Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos fel petai lesu'n dweud, os na wnawn ni edifarhau, mai marwolaerth ydy'r gosb. Sut allai, ar un llaw, wadu

What makes this accident unforgettable for me is more the sheer brutality of fate: what are the chances of this poor girl being there just at the split second in which the tree collapsed. When accidents of this kind happen, we are overwhelmed by a sense of powerlessness - just as Jesus' contemporaries must have felt concerning "those eighteen people who were killed when the tower of Siloam fell on them" (Luke 13:4). A defining aspect of human psychology is that we are extremely uncomfortable with the idea of bad events happening by chance. We can't resist the urge to look for some sort of logic in

---

GUILT ONLY WANTS TO CURL IN ON  
ITSELF, AS WE DO WHEN WE HAVE  
A WOUND AND DO NOT WANT  
ANYONE TO TOUCH IT BECAUSE IT  
HURTS TOO MUCH

---

them. It is an expression of our need to re-establish control – and this urge is such that we are even prepared to take the blame, believe that when bad things happen it must be because we deserve to be punished, that they are the expression of divine justice. We'd rather opt for guilt than come to terms with the unsettling truth that no logic whatsoever presides over events of this kind – they are simply, absurdly, maddeningly random and arbitrary.

Jesus knows that this human instinct is the greatest spiritual obstacle to his revelation of the Father's love. Guilt does not want forgiveness – it only wants to curl in on itself, as we do when we have a wound and do not want anyone to touch it because it hurts too much. The wound though can be healed only if we relinquish control to a doctor or a nurse, trust that they can take care of it, even if it will hurt at the beginning.

If this is the case then, if the tragic events of our life are not forms of punishment, what sense shall we make of the sentence repeated twice in Luke's gospel: "If you do not repent you will perish as they did" (Luke 13:3,5)? At first sight, it sounds as if Jesus was saying that if we do not repent the punishment is death. How can he deny that tragic events and death have anything to do with our behaviour in one sentence and declare the opposite in the other?

fod gan digwyddiadau trasig a marwolaeth unrhyw beth i wneud â'n hymddygiad, a datgan i'r gwrthwyneb ar y llall?

Mae'r gwrthgyferbyniad ymddangosiadol hwn yn pylu, fodd bynnag, wrth inni dalu sylw manylach i ystyr y gair "marw", apollumi yn yr iaith Roeg. Yn Efengyl Luc, mae'n wir dweud ei fod yn cael ei ddefnyddio ar adegau i olygu "dinistrio neu farw" – ond mewn darnau allweddol o'r un efengyl, yr ystyr ydy "mynd ar goll". Fel hyn y down ar draws y ferf hon pan glywn fod y ddafad a oedd wedi crwydro yn yr anialwch oddi wrth y 99 arall, "ar goll" (Luc 15:6). Yn yr un

---

## TRWY BEIDIO AG EDIFARHAU, FE FYDDWCH YN DIWEDDU AR GOLL - YN TRENGI A NYCHU

---

modd, ynglŷn â'r mab a adawodd tŷ ei dad i wario'r ffortiwn roedd wedi'i etifeddu yng nghwmni puteiniaid, fe glywn iddo, wrth ofalu am y moch, "ddod ato'i hun a dweud: 'Dyma fi'n trengi (neu, Dwi ar goll)' – yr un ferf (Luc 15:17), sy'n ymddangos eto pan ddywed y tad amdano: "Yr oedd ar goll, a chafwyd hyd iddo" (Luc 15:32).

Yng ngoleuni hyn, ystyr brawddeg lesu ydy, nid hyn: "Os na wnewch chi edifarhau, fe gewch eich cosbi trwy farw", ond "Trwy beidio ag edifarhau, fe fyddwch yn diweddu ar goll – ac hefyd yn trengi, sef nychu" – fel wrth beidio â dyfrhau planhigyn, mae'n crino ac yn marw yn y pen draw.

Mae enghraifft pellach o ddefnydd yr un ferf yn Efengyl Luc yn cadarnhau'r dehongliad hwn. Dywed lesu amdano'i hun iddo "ddod i ganfod ac achub" yr union rai sydd yn y cyflwr hwn, sydd ar goll, yn trengi, nychu, crino (Luc 19:10). Pan ydyn ni ar goll, yr hyn mae Duw'n ei wneud ydy, nid ein cosbi ond i'r gwrthwyneb yn llwyr: mae'n dod i chwilio amdanon ni ac yna'n gwneud popeth yn ei allu i'n hachub ni, i'n cymryd ato Fo'i hun.

Mae'r ddameg sy'n dilyn y datganiad hwn (Luc 13:6-8) yn cadarnhau'r dehongliad hwn. Mae'r sôn am goeden ffigys sydd, am ryw reswm, yn methu cynhyrchu ffrwyth bellach – ac, wrth reswm, fe fase unrhyw arddwr eisiau cael gwared ohoni. Yn lle hynny, mae Duw fel tase fo'n cymryd at y math yma o goeden grin – fel mae ganddo fo hoffter at ddefaid coll a meibion afradlon, ac am y rhai hynny sy'n wael, yn trengi, heb obaith goroesi.

Ond mae yna fwy. Mae llawer o ystyr y frawddeg "Os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yn yr un modd" (Luc 13:3,5) yn dibynnu ar y ffordd rydyn ni'n edrych ar edifeirwch. Rydyn ni'n

This apparent contradiction however dissolves when we pay closer attention to the meaning of the word “perish”, apollumi in Greek. In Luke’s Gospel it is indeed used sometimes with the meaning of “destroy or perish” – but in key passages of the same gospel it means “getting lost”. Thus we encounter this verb when we are told that the sheep which had wandered in the wilderness away from the 99 others was ‘lost’ (Luke 15:6). Similarly, concerning the son who left his father’s house to spend the fortune he had inherited with prostitutes, we are told that when he is looking after the pigs,



BY NOT REPENTING, YOU END UP BEING LOST – AND INDEED ALSO PERISHING, WASTING AWAY



suddenly he “comes to himself and says: ‘Here I am perishing (or, I am lost)” – same verb (Luke 15:17), which again recurs when the father says about him: “He was lost and has been found” (Luke 15:32).

In this light, the meaning of Jesus’ sentence is not: “If you do not repent, you will be punished by dying” but “By not repenting, you end up being lost – and indeed also perishing, wasting away” – just as if you do not water a plant, it ends up withering and eventually it dies.

A further instance of the same verb in Luke’s Gospel confirms this interpretation. Jesus says of himself that he “came to seek out and to save” precisely those who are in this condition, those who are lost, perishing, wasting away, withering (Luke 19:10). When we are lost, what God does is not punishing us, but the exact contrary: he comes to look for us and then does everything in his power to rescue us, restore us, take us with him.

The parable which follows this declaration (Luke 13:6-8) confirms this interpretation. It is about a fig tree which, for whatever reason, is not able to produce figs any more – and understandably any gardener would want to get rid of it. Instead God seems to like especially this kind of withering trees – just as he has a predilection for lost sheep and fugitive sons, and for those who are sick, are perishing, have no hope of survival.

But there is more. A lot of the meaning of the sentence “If you do not repent you will perish as they did” (Luke 13:3,5) depends on how we understand repentance. We tend to see it as something which depends on us – a decision we have to make, a change of lifestyle.

dueddol o'i weld fel rhywbeth sy'n dibynnu arnon ni – penderfyniad y mae'n rhaid i ninnau'i wneud, newid ffordd o fyw. Mae'r rhain, yn hytrach, yn ganlyniadau yr hyn ydy edifeirwch yn y bôn, sef hyr hyn sy'n digwydd pan – fel y ffigysbren ddiffrwyth neu'r ddafad grwydrol – fydd Duw'n ymweld â ni, ein cyraedd ni, cael ein cyffwrdd gan ei faddeuant a'i gariad, ac yn cael ein trawsnewid gan y profiad hwn. Unwaith eto, mae dameg y goeden ffigys yn darlunio hyn yn well nag unrhyw esboniad: edifeirwch ydy'r egni newydd, y bywyd ychwanegol a roddir i'r goeden ffigys trwy ofal y garddwr, wrth iddo drin y tir o'i

---

## ARGLWYDD, TYN NI'N ÔL ATAT, AC FE DDYCHWELWN; ADNEWYDDA EIN DYDDIAU FEL YN YR AMSER A FU

---

chwmpas a'i wrteithio, fel ei bod yn medru dechrtau dwyn ffrwyth eto.

Yn y diwedd, edifeirwch neu droedigaeth ydy'r hyn a ddigwydd pan fo euogrwydd yn cael ei ddadwneud – yn gyson, yn amyneddgar, yn ddygn – euogrwydd sydd, yn ôl geiriau'r Apostol Paul, "yn ymrithio fel angel goleuni, fel gwas cyfiawnder" (2 Corinthiaid 11:14 f.). Mae euogrwydd yn ein gadael gyda diwinyddiaeth ddi-ildio, rhywstredig sydd a wnelo dim â'r delweddau o arddwr gofalgar, bugail amyneddgar, tad thyner y down ni are u traws yn efengyl Luc. Yn y pen draw, dyma un o'r rhesymau pam fod lesu mor hoff o ddamhegion – pam fod gymaint o efengyl Luc yn ymwneud â choed ffigys, defaid, darnau arian. Y therapi sylfaenol yn erbyn euogrwydd ydy'r trawsnewidiad neu'r ailwifrio yma o'n hamgyffred ninnau o realaeth, o'n gwerthfawrogiad greddfol o ddigwyddiadau – yn enwedig trasiediau anorffod bywyd – ac, ar lefel ddofn, dim ond trwy newid y naratif, hynny ydy'r straeon a ailadroddwn i ni'n hunain, y gellid gwneud hynny.

Yn y diwedd, mae troedigaeth yn ymwneud â gadael i Dduw ein denu ato – rhywbeth y dealloedd y seintiau'n dda – a modelu ein gweddi ar frawddeg hyfryd o lyfr y Galarnad – brawddeg sy'n crisialu popeth: "Arglwydd, tyn ni'n ôl atat, ac fe ddychwelwn; adnewydda ein dyddiau fel yn yr amser a fu" (Galarnad 5:21).

Does dim ffordd arall o edifarhau, hynny ydy, dychwelyd at yr Arglwydd, heblaw am adael iddo ein cymryd ar ei ysgwyddau a'n dwyn ni'n ôl ato'i hun – yn "llawen", fel dywed Luc mor afaelgar (Luc 15:5)! [B]

These however are rather consequences of what repentance really is about, which is what happens when - like the useless fig-tree or the wandering sheep - we are visited by God, reached by him, touched by his forgiveness and his love, and are transformed by this experience. Again the parable of the fig tree visualizes this better than any explanation: repentance is the new vigour, the surplus of life given to the fig-tree by the gardener's care, when he cultivates the ground around it and fertilizes it, so that it can start producing fruit again.

---

## BRING US BACK TO YOU, LORD, THAT WE MAY RETURN: RENEW OUR DAYS AS OF OLD

---

In the end, repentance or conversion is all about this constant, patient, dogged undoing of guilt which, to use St Paul's words, "masquerades as an angel of light, a servant of righteousness" (2 Corinthians 11:14 f.). Guilt leaves us with a thwarted stern divinity which has nothing to do with the images of the caring gardener, the patient shepherd, the tender father we encounter in Luke's gospel. Ultimately, this is one of the reasons why Jesus is so fond of parables – why so much of Luke's gospel is about fig-trees, sheep, coins. The ultimate therapy against guilt is this conversion or rewiring of our perception of reality, of our instinctive appreciation of events – especially of the unavoidable tragedies of life – and at a deep level this can be done only by changing the narrative, that is the stories we keep telling ourselves.

In the end, conversion is about letting God woo ourselves to him – something the saints understood well – and model our prayer on a beautiful sentence from the book of Lamentations – a sentence that says it all: "Bring us back to you, Lord, that we may return: renew our days as of old" (Lamentations 5:21).

No other way of repenting, that is of returning to the Lord, other than him taking us on his shoulder and bringing us back to him – "joyfully", as Luke touchingly says (Luke 15:5)! [P]

# "RHO I'N GWEFUS GÂN"

**Mae'n Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu, Simon Ogdon, yn cyflwyno'r system glywedol newydd, a gaiff ei gosod dros fisoedd y hat.**

**Y**n ystod y pandemig a'i gyfnodau clo, daethom i gyd i arfer â gwneud pethau yn ddigidol, gydag ysgolion, eglwysi a grwpiau cymdeithasol i gyd yn mudo ar-lein i gadw eu disgylion, cynulleidfaoedd ac aelodau mewn cysylltiad â'n gilydd yn ystod y cyfnodau hir o ynysu. Roedd hyn yn her dechnegol ddifrifol i lawer, gyda sgiliau technolegol newydd yn cael eu datblygu ar gromlin ddysgu yn serth. Roedd yr her hon yn arbennig o ddifrifol i lawer o eglwysi nad oedd eu darpariaeth dechnolegol yn gallu addasu'n hawdd i alluogi pethau megis ffrydio byw. Yng Nghadeirlan Deiniol Sant rydym wedi ymateb i'r her hon gyda datrysiaid dros dro ardderchog sydd wedi ein tywys drwy'r cyfnod anodd hwn. Mae'n diolch yn fawr i David Taylor ac eraill am eu gwaith caled i sicrhau hyn oll.

Yr ydym yn awr, diolch byth, yn gallu dychwelyd i'r eglwys yn gorfforol, ac i'r cyfoeth ychwanegol o brofiad y mae hyn yn ei ganiatáu. Fodd bynnag, mae wedi dod yn amlwg bod gwasanaethau wedi'u ffrydio yn rhywbeth sy'n parhau i fod yn angenrheidiol i lawer nad ydynt yn gallu bod yn bresennol (yn enwedig mewn esgobaeth â daearyddiaeth gymhleth fel Bangor) neu i'r rhai sy'n dymuno cadw cysylltiad â man y maent yn ei gofio'n annwyl ond maent yn awr yn bell ohono. Ac felly, er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn orau y gallwn, mae Cabidwl y Gadeirlan wedi penderfynu buddsoddi mewn system glywedol newydd a all gefnogi hyn yn llawn.

Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi bod yn cydweithio â **DM Music**, sy'n arbenigo mewn dylunio a gosod systemau sain ar gyfer eglwysi hanesyddol. Maent wedi gwneud gosodiadau mewn eglwysi nodedig fel Sant Siôr, Sgwâr Hanover a Sant Marylebone yn Llundain, Cadeirlannau Caerloyw, Guildford a Wakefield, a llawer mwy yn lleol yn Eglwys y Groes yn Maesgeirchen. Mae'r arbenigwyr o DM Music wedi bod yn gweithio'n galed dros gyfnod o sawl mis i ddylunio system a fydd yn darparu'r cyfan sydd ei angen arnom, tra'n troedio'n

# "OPEN THOU OUR LIPS"

Our Conservation & Development Project Manager, Simon Ogdon, introduces our new audiovisual system, which will be installed over the summer.



Over the course of the pandemic and its lockdowns, we all became used to doing things "virtually", with schools, churches and social groups all heading online to keep their pupils, congregations and members in contact with one another during the long periods of isolation. This presented a serious technical challenge for many, with new technological skills being developed on a steep learning curve. This challenge was particularly acute for many churches whose technological provision was not easily able to adapt to accommodate such things as live-streaming services. At Saint Deiniol's Cathedral we have risen to this challenge with an excellent temporary solution which has seen us through these difficult times. We owe a huge thanks to David Taylor and others for their hard work to ensure this is the case.

We are now, thankfully, able to return to church in person, and to the additional richness of experience this allows. However, it has become clear that streamed services are something that remain a need for many who are unable to attend in person (especially in a diocese with complicated geography like Bangor) or for those who wish to retain a connection with a place they remember fondly but from which they are now physically distant. And so, in order to deliver this service as best we can, the Cathedral Chapter have taken the decision to invest in a new audiovisual system which can support this fully.

In order to do this, we have been working alongside **DM Music**, who are specialists in the design and installation of audiovisual systems for historic churches. They have carried out installations at such notable churches as St George, Hanover Square and St Marylebone in London, Gloucester, Guildford and Wakefield Cathedrals, and much more locally at Eglwys y Groes in Maesgeirchen. The experts from DM Music have been working hard over a period of several months to design a system that will provide all we require, whilst having a minimal visual impact on the space within the Cathedral.

ysgafn o ran effaith weledol yng ngofod yn y Gadeirlan.

## LLYGAID CAMERÂU NEWYDD AR GYFER FFRYDIO A CHYFATHREBU



Ar hyn o bryd mae pum camera o fewn y Gadeirlan (heb gyfrif y system TCC), gyda phedwar i ganiatáu i'r organydd weld yr arweinydd yn ystod gwasanaethau a'r camera symudol a ddefnyddir i ffrydio gwasanaethau bore Sul. Mae camerâu'r organydd yn hen iawn ac yn darparu ansawdd llun hynod o wael ac nid yw'r camera cludadwy yn darparu llawer o hyblygrwydd ar gyfer gwasanaethau mwy cymhleth lle mae gweithredu litwrgaidd yn digwydd mewn lleoliadau lluosog.

Bydd y cynllun newydd yn cyflwyno chwe chamera PTZ (pan-tilt-zoom) – tri'r un yng Nghorff yr Eglwys a'r Cwîr – y gellir eu rheoli o bell gan weithredwr y system a thrwy hynny roi sylw llawn i'r gweithredu unrhyw le yn y Gadeirlan. Bydd y camerâu organ presennol yn cael eu disodli gan ddua gamera sefydlog bach sy'n rhoi golwg o'r arweinydd gyda chyn lleied o hwyrni ag y bo modd, a bydd yr organydd hefyd yn gweld y llun o'r camerâu eraill, gan ganiatáu iddynt ddilyn gweithred y gwasanaeth yn rhwydd.

## CLUSTIAU SEINYDDION NEWYDD



Mae'r seinyddion presennol yn darparu sain dda ledled Corff yr Eglwys, ond maent yn fawr a braidd yn amhrydferth. Ychydig iawn o sain a geir o fewn y Seintwar ar hyn o bryd, gyda dim ond un seinydd yn y Cwîr ac un yn y Gangell, y ddua ohonynt hefyd braidd yn hen a swmpus. Mae'r ceblau sy'n bwydo'r seinyddion hyn hefyd yn flêr iawn mewn mannau ac mae angen eu hatgyweirio neu eu hadnewyddu i sicrhau bod ansawdd sain yn cael ei gadw.

Bydd y cynllun newydd yn darparu cyfanswm o 14 o seinyddion yng Nghorff yr Eglwys a'r Eiliau, wedi'u paentio i gydwedd i'r garreg y maent wedi'u gosod arnynt. Maent hefyd wedi'u cynllunio i ddarparu'r ongl tuag i lawr angenrheidiol ar gyfer y sain yn fewnol, felly ni fydd angen eu gosod ar ogwydd fel y mae'r seinyddion presennol, ond gellir eu gosod yn wastad i'r colofnau, gan leihau eu heffaith weledol hyd yn oed ymhellach. Yn ogystal, bydd 10 seinydd cryno yn cael eu gosod ledled y Seintwar wedi'u cuddio yn y rhwylwaith pren a bydd seinydd newydd yn cael ei osod yn y blwch organ.

Lluniau o waith DM Music mewn eglwysi eraill  
Ceir mwy ar eu cyfrif Instagram @dmmusicltd

## SEE NO EVIL NEW CAMERAS FOR STREAMING AND COMMUNICATION

Currently there are five cameras within the Cathedral (not counting the CCTV system), with four to allow the organist to see the conductor during services and the portable camera used to stream Sunday morning services. The organist cameras are very old and provide extremely poor picture quality and the portable camera provides little flexibility for more complex services where liturgical action takes place in multiple locations.

The new scheme will introduce 6 PTZ (pan-tilt-zoom) cameras – three each in the Nave and the Quire – that can be remotely controlled by the system operator and thus provide full coverage of action anywhere in the Cathedral. The existing organ cameras will be replaced with two ultra-small fixed cameras giving a view of the conductor with minimal latency, and the organist will also have access to the feeds from the other cameras, allowing them to follow the action of the service with ease.



